**Fframwaith Moeseg Prifysgol Metropolitan Caerdydd (FMP) — Byw Ein Gwerthoedd[1]**

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r egwyddorion cyffredinol sy'n arwain yr holl randdeiliaid yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ar ran Met Caerdydd, ac mae'n fynegiant o werthoedd y Brifysgol fel y nodir yng Strategaeth 2030.

Yn benodol, rydym yn disgwyl i'n staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yr ydym yn gweithio gyda nhw ymdrechu am ragoriaeth ym mhopeth a wnânt drwy rannu'r gwerthoedd a'r ymddygiadau cyffredin canlynol:

| **Gwerthoedd** | **Ymddygiad** |
|---|---|
| Creadigrwydd | Arweinyddiaeth |
| Arloesedd | Dewrder |
| Cynwysoldeb | Atebolrwydd |
| Ymddiriedaeth | Ystwythder |

Mae'r FMP hefyd yn darparu sylfaen ar gyfer holl strategaethau a pholisïau'r brifysgol, ac yn egluro ymrwymiad y brifysgol i fyw ei gwerthoedd.

Egwyddorion Allweddol yr FMP yw:

- Rydym yn darparu llwyfan drwy ein FMP ar gyfer dewisiadau moesegol da o ddydd i ddydd yn ogystal â helpu i ddarparu ymateb i broblem benodol.
- Rydym yn ymdrechu i wneud daioni ac osgoi achosi niwed.
- Rydym yn rhannu pwrpas cyffredin gyda'n cymunedau i ddatblygu gweithgarwch diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd.
- Disgwyliwn fod ein gwaith yn parchu 'cyfraith y tir', yn ogystal ag arfer lleol.
- Rydym yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r brifysgol.
- Rydym yn trin eraill gyda chwrteisi a pharch, ac yn ymateb i'w hanghenion.
- Rydym yn rhesymol ac yn gymesur wrth wneud penderfyniadau.
- Rydym yn anelu at y safonau uchaf o ymddygiad, gan gadw at y gofynion a'r disgwyliadau a nodir gan y cymdeithasau pwnc a'r cyrff proffesiynol yr ydym yn gysylltiedig â hwy.
- Rydym yn agored i syniadau newydd ac yn barchus o'r rhai sydd â safbwyntiau gwahanol i'n rhai ni.
- Rydym yn ceisio mynd i'r afael â phryderon ynghylch ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn agored, yn llawn ac mor gyflym â phosibl.
- Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn modd moesegol, cynaliadwy a chymdeithasol gyfrifol, ac rydym yn disgwyl i'n partneriaid rannu'r ymrwymiad hwn.
- Rydym ond yn derbyn rhoddion a nawdd gan y rhai yr ydym yn falch o fod yn gysylltiedig â nhw.

[1] Mae'r FMP hwn hefyd wedi cael ei lywio gan ddogfennau tebyg o Brifysgolion Birmingham a Southampton, a Phrifysgol Portsmouth.

- Rydym yn defnyddio rhoddion neu gyllid a dderbynnir at y dibenion a fwriadwyd gan y rhoddwr neu'r cyllidwr.